Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Rhannu gyda'n Gilydd 2022 i 2023

Ein cynllun i helpu pobl i weithio gyda'i gilydd yn y Celfyddydau

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngr Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Rhannu gyda'n Gilydd 2022/23: Menter Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru i annog Datblygu Cyfleoedd Rhwydweithio'**

**Mai 2022**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 19**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru.** Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** creative.learning@arts.wales

**Ffôn:** 029 2044 1391

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Am rhannu gyda'n gilydd ........ 4**

**Sut i wneud cais am gyllid ........ 10**

**Beth sydd yn digwydd os ydw i'n cael y cyllid? ........ 15**

**Pryd i wneud cais ........ 16**

**Angen cysylltu gyda ni? ........ 17**

**Geiriau anodd ........ 19**


# Am rhannu gyda'n gilydd



Rydyn ni eisiau rhoi arian am syniadau sydd yn helpu pobl yn y celfyddydau i weithio gyda'i gilydd.



Mae gweithio gyda'i gilydd hefyd yn cael ei alw yn **rhwydweithio.** **Rhwydwaith** ydy grŵp o bobl sydd yn gweithio gyda'i gilydd.




Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig iawn oherwydd Covid-19.



Rydyn ni eisiau helpu gwaith sydd yn cefnogi gweithio gyda llawer o wahanol fathau o bobl.



A gwneud yn siŵr bod pobl sydd weithiau ddim yn cael cyfle yn gallu cymryd rhan.

Rydyn ni hefyd eisiau i bobl ddal i siarad am **Black Lives Matter** a **We Shall Not be Removed**.



Mudiadau ydy'r rhain sydd yn sefyll i fyny dros gydraddoldeb i grwpiau lleiafrifol – fel pobl ddu a phobl anabl.




Rydyn ni'n credu bod y mudiadau yma yn bwysig iawn i'r Celfyddydau.



Rydyn ni eisiau clywed am bob math o syniadau.

Ond mae gennym ni ddiddordeb mawr mewn cefnogi syniadau am :



- Weithio gyda phobl o gefndiroedd gwahanol.



- Grwpiau byddar, anabl a **niwroamrywiaeth**



Mae **niwroamrywiaeth** yn meddwl pobl mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.



- Pobl sydd yn dod o wahanol wledydd a diwylliannau.



- Gweithio gyda phobl eraill sydd efallai ddim wedi cael yr un cyfleoedd i weithio yn y celfyddydau. Er enghraifft oherwydd lle maen nhw'n byw. Neu oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.



Mae **rhwydweithiau** yn gallu bod yn grwpiau bach neu grwpiau mawr.




Maen nhw'n gallu cyfarfod yn aml neu efallai ddim.




Efallai bod rhai grwpiau yn cyfarfod ar-lein yn unig.

Mae **rhwydweithiau** yn bwysig i bethau fel:



- rhannu gwybodaeth
- rhannu sgiliau
- cefnogi ei gilydd
- rhannu offer
- siarad drwy syniadau.



Rydyn ni'n gallu cefnogi **rhwydweithiau** newydd. A **rhwydweithiau** sydd yn bodoli'n barod.

Rydyn ni'n gallu rhoi rhywfaint o arian i:



- Gost rhedeg cyfarfod lle mae pobl yn gallu siarad am greu **rhwydwaith** newydd




- Costau creu cyfarfodydd neu grwpiau ar-lein



- Helpu **rhwydwaith** sydd yn bodoli'n barod i ddatblygu. Er enghraifft, gwneud i'w **rhwydwaith** dyfu



Rydyn ni'n gallu cefnogi llawer o wahanol fathau o **rwydweithiau**.



Rydyn ni eisiau gweld sut y bydd **rhwydweithiau** o help i bobl eraill




A gweld sut mae'r **rhwydwaith** yn gallu para.

# Sut i wneud cais am gyllid




Rydyn ni'n gallu rhoi i fyny at £2000 ar gyfer pob prosiect



I wneud cais fe fydd rhaid i chi ddefnyddio ein porth ar-lein.



Os nad ydych chi wedi defnyddio'r porth o'r blaen, fe fydd angen i chi gofrestru i ddechrau. Mae cyfarwyddiadau am sut i wneud hyn ar ein gwefan yma.



Os nad ydych chi'n gallu cael neu yn methu defnyddio'r ffurflen ar-lein, neu os ydych chi angen help, e-bostiwch ni os gwelwch yn dda: grantiau@celf.cymru.

**Fe ddylech chi:**




**1. Llenwi ffurflen gais Rhannu gyda'n Gilydd 2022-23 ar ein porth ar-lein.**



**2. Uwchlwytho'r pethau yma i'r porth ar-lein gyda eich ffurflen gais:**

Disgrifiad o'ch prosiect. Fe ddylai hyn gynnwys:



- Beth rydych chi eisiau ei wneud a pham
- Pam bod angen y gwaith yma
- Y bobl a'r cyrff rydych chi'n meddwl y byddwch yn gweithio gyda nhw
- Sut y byddwch chi'n eu cael i gymryd rhan
- Sut fydd hyn yn helpu'r bobl sydd yn cymryd rhan.



Rydych chi'n gallu gwneud hyn mewn ysgrifen, mewn fideo **neu** recordiad llais.

Aa

Os ydych chi yn gwneud hyn mewn **ysgrifen:**

- peidiwch ag ysgrifennu mwy na 2 ochr o bapur A4
- anfonwch ef fel ffeil Word neu PDF
- gwnewch yn siŵr bod eich testun o leiaf 12pt mewn maint
- gwnewch yn siŵr nad ydy eich ffeil dros 250mb mewn maint.



Os ydych chi yn anfon **fideo** neu **recordiad llais**, gwnewch yn siŵr nad ydy eich recordiad yn ddim mwy na 4 munud o hir.




Anfonwch fideos neu recordiadau llais fel dolenni i'ch gwefan, Vimeo, neu YouTube.

3. **Esboniwch yn glir sut rydych chi'n bwriadu gwario'r arian.**

Rydyn ni'n gallu talu **holl** gostau eich prosiect. Cyn belled nad ydy e dros £2000. Rydyn ni'n gallu talu am bethau fel:

- Llogi ystafell



- Bwyd a diod
- Talu person i roi sgwrs neu i gefnogi'r grŵp



- Offer
- Gwneud lle yn ddiogel rhag Covid-19.




Ond **dim ond** am bethau fel costau teithio i bobl sydd yn siarad neu sydd â phrif rôl yr ydyn ni'n gallu talu amdanyn nhw.





Rydyn ni hefyd yn gallu helpu cyrff sydd ddim wedi eu lleoli yng Nghymru. Cyn belled â bod y **rhwydwaith** yn mynd i fod yng Nghymru.



Ac mae pobl o'r tu allan i Gymru yn gallu bod yn rhan o'r **rhwydwaith**

# Beth sydd yn digwydd os ydw i'n cael y




Fe fyddwn ni yn gofyn am adroddiad byr am y cyfarfodydd neu'r gwaith sydd yn digwydd.



Er enghraifft, faint o bobl sydd yn cymryd rhan. A beth rydych chi'n ei wneud ac yn bwriadu ei wneud wrth symud ymlaen.




Fe fyddwn ni yn cadw hyd at £200 o'ch cyllid yn ôl. Fe fyddwn ni yn ei dalu pan fyddwn ni wedi cael eich adroddiad.

# Pryd i wneud cais

Mae 2 gylch o gyllid rydych chi'n gallu gwneud cais amdanyn nhw :




Rydych chi'n gallu gwneud cais erbyn **5pm** ar **Ddydd Iau 9 Mehefin 2022**




Neu rydych chi'n gallu gwneud cais erbyn **5pm** ar **Ddydd Iau 6 Hydref 2022**



Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys yr **holl** wynodaeth gefnogi rydych chi ei angen gyda'ch ffurflen gais.



Fe fydd grŵp o staff yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn penderfynu pwy sydd yn cael y cyllid.



Fe fyddwn ni yn gwneud ein gorau i ddweud wrthych chi beth rydyn ni yn ei benderfynu dim hwyrach na 6 wythnos ar ôl y dyddiadau cau.

# Angen cysylltu gyda ni?



Os ydych chi'n cael problemau gyda'r ffurflen gais neu ein porth ar-lein, e-bostiwch: grantiau@celf.cymru

Mae llawer o ffyrdd rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni yn y Cyngor Celfyddydau:



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae ein llinell ffôn yn agor rhwng 9am a 5pm Llun i Iau. Mae ar agor tan 4.30pm ar ddydd Gwener




**Twitter:** @Arts_Wales_

**Website:** celf.cymru




Mae rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu gyda ni ar ein gwefan.



I siarad gyda rhywun am eich syniad prosiect, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:



**Amanda Loosemore**

**E-bost:** amanda.loosemore@arts.wales

**Ffôn:** 01267 230337
neu
07967 161763



**Lisa Williams**

**E-bost:** lisa.williams@arts.wales

**Ffôn:** 029 2044 1349




Os oes gennych chi unrhyw anghenion cymorth rhowch wybod inni ar e-bost: grantiau@celf.cymru

# Geiriau anodd

## Niwroamrywiaeth

Mae hyn yn meddwl pobl y mae eu hymennydd yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

## Rhwydweithio

Mae gweithio gyda'i  gilydd hefyd yn cael ei alw yn rhwydweithio. Rhwydwaith ydy grŵp o bobl yn gweithio gyda'i gilydd